

## Datganiad newyddion

**Dyddiad:** 11 Gorffennaf 2018

**Teitl:** Prosiect yn rhoi Cymru'n flaenllaw o ran defnyddio data myfyrwyr i ddarparu cefnogaeth

Bydd CCAUC yn cyllido'n rhannol dwy flynedd o brosiect tair blynedd newydd i helpu prifysgolion a cholegau i ddadansoddi data myfyrwyr i helpu i wella'r gefnogaeth, fel bod myfyrwyr yn cael gwell canlyniadau dysgu.

Bydd prosiect Dadansoddeg Dysgu Cymru, a fydd yn cyllido darparwyr addysg uwch dros tair blynedd i weithio gyda gwasanaeth dadansoddeg dysgu Jisc, yn galluogi sefydliadau i ddeall patrymau data er mwyn helpu myfyrwyr i ddeall eu hanghenion dysgu eu hunain ac adnabod meysydd i'w gwella, a ddylai gynyddu cyfraddau cadw a chyflawni blaenoriaethau ehangu mynediad yn well.

Bydd hyn yn cynnwys ap i fyfyrwyr fel eu bod yn gallu cofnodi eu cynnydd i dargedu meysydd i'w gwella.

Hefyd bydd dadansoddi patrymau dysgu'n darparu gwybodaeth genedlaethol ddiennw am: beth sy'n achosi canlyniadau addysgol gwahanol i fyfyrwyr; llwyddiant neu fethiant ymyriadau cefnogi myfyrwyr; a chofnodi gwelliannau mewn dysgu ac addysgu ar raglenni unigol.

Bydd darparwyr addysg uwch yn cael eu hannog i rannu arbenigedd a dod yn fwy hyblyg, hyderus ac arloesol fyth o ran defnyddio dysgu sy'n cael ei wella gan addysgu yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: “Fel y nodwyd gennym y mis ddiwethaf, mae ein cynllun deng mlynedd i wella’r defnydd o dechnolegau addysgu mewn prifysgolion wedi cael effaith bositif ar y sector addysg uwch. Rydyn ni’n hyderus nawr y bydd y cam dadansoddeg dysgu yn natblygiad y maes hwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn rhoi i sefydliadau wybodaeth ychwanegol i wella’r canlyniadau dysgu ar gyfer eu myfyrwyr.

“Rydyn ni’n falch bod ein partneriaid ni yn Jisc wedi bod yn gweithio gyda’u haelodau mewn addysg uwch ers 2014 ar sut i archwilio a dadansoddi data’n effeithiol fel sail i strategaethau yn y dyfodol. Mae hyn nid yn unig yn darparu profiad gwell i fyfyrwyr ond hefyd yn helpu sefydliadau i barhau i fod yn gystadleuol.

“Mae gan ddata myfyrwyr sy’n cael eu casglu gan brifysgolion a cholegau botensial enfawr i helpu i fynd i’r afael â materion mawr fel gwella’r cadw ar ddysgwyr, rhoi hwb i gyrhaeddiad a darparu profiad dysgu o ansawdd uchel. Bydd y mabwysiadu ar y prosiect yma ledled Cymru’n cyflymu wrth i gymunedau rannu arfer da gan olygu mai ni yw’r wlad fwyaf blaengar yn y DU yn y maes yma.”

Dywedodd Alyson Nicholson, Pennaeth Jisc Cymru: “Mae gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru draddodiad cadarn o gydweithio ar ddulliau arloesol o wella canlyniadau dysgu a phrofiad myfyrwyr. Rydyn ni’n edrych ymlaen at weithio gyda’r sector fel eu bod yn gallu manteisio i’r eithaf ar y data maent yn eu casglu i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael y gefnogaeth maent ei hangen i lwyddo.”

Dywedodd Gwyneth Sweatman, Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru: “Mae mynd i brifysgol – yn ddieithriad – yn brofiad sy’n trawsnewid a dylai pawb allu elwa o’r profiad hwnnw dim ots beth yw eu cefndir. Ond mae’n bwysig cofio, fodd bynnag, nad dim ond cael i mewn yw’r nod. Mae’n ymwneud hefyd â gwneud cynnydd. Mae hynny nid yn unig yn dda i fyfyrwyr, ond hefyd i

brifysgolion, i gymunedau ac i Gymru gyfan. Rydw i'n edrych ymlaen at weld sut bydd y darparwyr yn gweithio gyda Jisc i sicrhau bod pob dinesydd yng Nghymru'n gallu cael cyfle sy'n newid bywyd drwy addysg prifysgol, os mai hwn yw'r llwybr priodol ar eu cyfer."

## **Diwedd**

## **Cyswllt**

Emma Raczka, Uwch Reolwr Cyfathrebu, 029 2085 9667,  
[emma.raczka@hefcw.ac.uk](mailto:emma.raczka@hefcw.ac.uk)

## **Nodiadau**

Bydd CCAUC yn cyllido hanner cost gwasanaeth dadansoddeg dysgu Jisc i SAUau dros y 2 flynedd, gyda'r sefydliadau'n ymrwymo i barhau i dalu am y gwasanaeth am flwyddyn arall. Hefyd bydd CCAUC yn cyllido cefnogaeth ychwanegol gan Jisc i'r sefydliadau.

Bydd y rhaglen waith arfaethedig yn cefnogi darparwyr AU Cymru i ddatblygu ymhellach eu defnydd strategol o ddadansoddeg dysgu i gyflawni eu nodau sefydliadol i gefnogi myfyrwyr. Craidd y rhaglen yw gweithredu, gyda chefnogaeth a chyllid rhannol, wasanaeth dadansoddeg dysgu Jisc i holl sefydliadau AU Cymru a'r ddau sefydliad AB a reoleiddir, os ydynt yn dymuno cymryd rhan.

Mae'r gwaith yn dechrau gyda cham parodrwydd a pheilot, o gam darganfod ac asesiad parodrwydd drwodd i sefydlu diwylliannol, dylunio a gweithredu, integreiddio data ac, yn olaf, gwerthusiad.

## Am CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.

## Am Jisc

Jisc yw sefydliad aelodaeth arbenigol y DU ar gyfer technoleg ddigidol ac adnoddau digidol mewn addysg uwch, addysg bellach, sgiliau ac ymchwil. Ein gweledigaeth ni yw gwneud y DU y wlad sydd wedi datblygu fwyaf yn y byd yn ddigidol ym maes addysg ac ymchwil.

Rydym yn chwarae rhan greiddiol mewn datblygu, mabwysiadu a defnyddio technoleg ym mhrifysgolion a cholegau'r DU. Rydym yn cefnogi defnyddio technoleg i wella'r dysgu, yr addysgu, profiad y myfyrwyr ac effeithlonrwydd y sefydliadau, yn ogystal ag ymchwil mwy pwerus.

Wrth galon cefnogaeth Jisc mae Janet – Rhwydwaith Ymchwil ac Addysg Cenedlaethol (NREN) o safon byd y DU. Yn eiddo i Jisc ac yn cael ei reoli a'i weithredu ganddo, mae Janet yn cynnwys seilwaith rhwydwaith diogel, cwbl fodern ar gyfer y pedair gwlad yn y DU.

Swyddfa'r Wasg Jisc: [Press@jisc.ac.uk](mailto:Press@jisc.ac.uk)

0203 006 6056

Twitter: @Jisc